OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 3

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd fel arfer ar agor i'r cyhoedd

### PENNOD 1

Trosolwg

**Cyfeiriadau at "mangre" a throsolwg**

**10.**—(1) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriadau at "mangre" yn gyfeiriadau at fangre busnes neu wasanaeth—

(a) sydd yng Nghymru, a

(b) y mae gan y cyhoedd fynediad iddi neu y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddi, pa un ai drwy dalu neu fel arall.

(2) Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch busnesau neu wasanaethau y mae rhaid i'w mangreoedd gau.

(3) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch busnesau neu wasanaethau y mae rhaid i'w mangreoedd gau ond y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt.

(4) Mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch busnesau neu wasanaethau y caiff eu mangreoedd barhau i fod ar agor.

(5) Gweler rheoliad 17 am ddarpariaeth bellach ynghylch mangreoedd a gaiff barhau i fod ar agor neu a gaeir ond y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt yn unol â'r Rhan hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 10 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, PENNOD 1.